## INCWM A GWARIANT AR GYFER Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN 31 MAWRTH 2005

| | Nodyn | £000 | 2003-04 £000 |
|---|---|---|---|
| **Incwm o weithgareddau** | 3 | **294,260** | 264,269 |
| **Incwm gweithredu arall** | 4 | **41,430** | 37,966 |
| **Cyfanswm yr incwm** | | **335,690** | 302,235 |
| **Treuliau gweithredu** | 5 | **(328,197)** | (293,958) |
| **Arian gweithredu sy'n weddill/ (diffyg)** | | **7,493** | 8,277 |
| Costau aildrefnu/ailstrwythuro sylfaenol | | **0** | 0 |
| Elw /(colled) ar waredu asedau sefydlog | 8 | **(28)** | (26) |
| **Arian sy'n weddill /(diffyg) cyn llog** | | **7,465** | 8,251 |
| Llog sy'n dderbyniadwy | | **932** | 674 |
| Llog sy'n daladwy | 9 | **0** | 0 |
| Costau cyllid eraill | 16 | **(57)** | (51) |
| **Arian sy'n weddill /(diffyg) ar gyfer y flwyddyn ariannol** | | **8,340** | 8,874 |
| Difidend Cyfalaf Cyhoeddus - difidendau sy'n daladwy | | **(8,333)** | (8,867) |
| **Arian sy'n weddill /(diffyg) a gedwir ar gyfer y flwyddyn** | 17 | **7** | 7 |

## 3. Incwm o weithgareddau

| | £000 | 2003-04 £000 |
|---|---|---|
| Byrddau iechyd lleol | **219,047** | 209,652 |
| Comisiynu Iechyd Cymru | **72,192** | 50,759 |
| Ymddiriedolaethau GIG | **0** | 0 |
| Awdurdodau iechyd strategol ac ymddiriedolaethau gofal sylfaenol | **181** | 644 |
| Ymddiriedolaethau Sylfaen | **0** | 0 |
| Awdurdodau lleol | **167** | 0 |
| Cynulliad Cenedlaethol Cymru | **355** | 684 |
| Heb fod yn rhai'r GIG: | | |
| Incwm cleifion preifat | **1067** | 1,213 |
| Cleifion tramor (heb gytundeb) | **3** | 13 |
| Costau Deddf Traffig y Ffyrdd | **1,185** | 1,239 |
| Incwm arall o weithgareddau | **63** | 65 |
| **Cyfanswm** | **294,260** | 264,269 |

Mae incwm RTA yn amodol ar ddarpariaeth ar gyfer dyledion amheus o 8.7% i adlewyrchu cyfraddau casglu disgwyliedig.

## 4. Incwm gweithredu arall

| | £000 | 2003-04 £000 |
|---|---|---|
| Gwasanaethau cludiant cleifion | **0** | 0 |
| Addysg, hyfforddiant ac ymchwil | **20,033** | 15,962 |
| Cyfraniadau elusennol ac eraill at wariant | **0** | 0 |
| Trosglwyddo o gronfa wrth gefn asedau a gafwyd yn rhodd | **318** | 294 |
| Trosglwyddo o gronfa wrth gefn grantiau'r llywodraeth | **0** | 0 |
| Cynlluniau creu incwm nad ydynt yn seiliedig ar ofal cleifion | **2,014** | 1,859 |
| Incwm arall: | | |
| Darpariaeth gwasanaethau golchi, patholeg, cyflogau | **2,459** | 2,333 |
| Costau llety ac arlwyo | **1,975** | 1,838 |
| Ffïoedd mortiwari | **150** | 141 |
| Taliadau'r staff ar gyfer defnyddio ceir | **286** | 258 |
| Y Ganolfan er Arweiniad mewn Gofal Iechyd (Coleg Staff) | **2,488** | 4,272 |
| Eraill | **11,707** | 11,009 |
| **Cyfanswm** | **41,430** | 37,966 |

Mae Incwm Arall yn cynnwys gwerth £4,486k o wasanaethau i gyrff eraill, £1,160k o Hysbysu Gofal Iechyd, £1,791k o incwm yng nghyswllt prosiectau parhaus yn yr Ymddiriedolaeth gan gynnwys Cychwyn Cadarn, CARIS, Arloesedd Mewn Gofal a phrosiectau gyda Rhwydwaith Canser De Cymru a sefydliad MacMillan, ac incwm o £1,022k o fferyllfeydd.

## 5. Treuliau gweithredu

### 5.1 Mae treuliau gweithredu yn cynnwys

| | | 2003-04 |
|---|---|---|
| | **£000** | £000 |
| Nwyddau a gwasanaethau o gyrff eraill y GIG | **3,362** | 3,207 |
| Nwyddau a gwasanaethau o Ymddiriedolaethau Sylfaen eraill y GIG | **0** | 0 |
| Prynu gofal iechyd o gyrff nad ydynt yn y GIG | **2,543** | 1,500 |
| Costau'r cyfarwyddwyr | **712** | 678 |
| Costau'r staff | **224,642** | 194,547 |
| Cyflenwadau a gwasanaethau - clinigol | **48,854** | 43,968 |
| Cyflenwadau a gwasanaethau - cyffredinol | **7,565** | 7,520 |
| Sefydlu | **6,424** | 6,631 |
| Cludiant | **465** | 392 |
| Adeiladau | **15,922** | 14,681 |
| Dibrisiant a dileu | **11,364** | 10,156 |
| Amhariadau a gwrthdroadau ar asedau sefydlog | **0** | 0 |
| Ffïoedd archwilio | **157** | 145 |
| Taliadau eraill i'r archwilwyr | **0** | 0 |
| Colledion, taliadau arbennig a dyledion anadferadwy | **384** | 3,001 |
| Treuliau gweithredu eraill | **5,803** | 7,532 |
| **Cyfanswm** | **328,197** | 293,958 |

### 5.2 Colledion, taliadau arbennig a dyledion anadferadwy: taliadau a godir ar dreuliau gweithredu

| | | 2003-04 |
|---|---|---|
| **Cynnydd/gostyngiad yn y ddarpariaeth ar gyfer taliadau yn y dyfodol:** | **£000** | £000 |
| Esgeulustod clinigol | **15,667** | (617) |
| Anaf personol | **957** | 2,290 |
| Yr holl golledion eraill a thaliadau arbennig | **66** | 51 |
| Ffïoedd cyfreithiol amddiffyn a chostau gweinyddol | **(839)** | (282) |
| Cynnydd/gostyngiad gros yn y ddarpariaeth ar gyfer taliadau yn y dyfodol | **15,851** | 1,442 |
| | | |
| Cyfraniad i'r Gronfa Risg Cymru | **0** | 2,056 |
| Premiwm ar gyfer trefniadau eraill yswiriant | **0** | 0 |
| Dyledion anadferadwy | **0** | 0 |
| **Llai**: incwm a dderbyniwyd/ sy'n ddyledus o Gronfa Risg Cymru | **(15,467)** | (497) |
| **Cyfanswm y gost** | **384** | 3,001 |

Mae anaf personol yn cynnwys £1,754,367 (2003-04 £790,362) am fudd-daliadau yng nghyswllt anaf parhaol.

**5.5 Cyflog a hawliau pensiwn uwch reolwyr**

**Tâl**

| Enw a theitl | 2004-05 Cyflog (Bandiau £5mil) £000 | 2004-05 Tâl Arall (Bandiau £5mil) £000 | 2004-05 Buddiannau mewn nwyddau wedi talgrynnu I'r £100 agosaf £00 | 2003-04 Cyflog £000 | 2003-04 Tâl Arall £000 | 2003-04 Buddiannau mewn Nwyddau £000 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfarwyddwyr gweithredol** | | | | | | |
| Ms J Perrin (Prif Weithredydd) | 135 - 140 | 0 | 4,200 | 115 - 120 | 0 | 4 |
| Mr DC Roberts (Cyfarwyddwr Cyllid a Pherfformiad Dros Dro) | 80 - 85 | 0 | 0 | 135 - 140 | 0 | 0 |
| Mr AJ Bellamy (Cyfarwyddwr Strategaeth Gwasanaethau a Moderneiddio) | 90 - 95 | 0 | 4,200 | 85 - 90 | 0 | 4 |
| Mr JP Calvert (Cyfarwyddwr Meddygol) | 65 - 70 | 85 - 90 | 0 | 50 - 55 | 90 - 95 | 0 |
| Ms S Franks (Cyfarwyddydd Nyrsio) | 75 - 80 | 0 | 0 | 70 - 75 | 0 | 0 |
| **Cyfarwyddwyr Cyswllt (Cyfetholedig)** | | | | | | |
| Mr N Schofield (Cyfarwyddwr Ystadau a Chyfleusterau) | 70 - 75 | 0 | 0 | 45 - 50 | 0 | 0 |
| Mr P Dilworth (Cyfarwyddwr RhG & Th) | 65 - 70 | 0 | 0 | 65 - 70 | 0 | 0 |
| Mr S Combe (Cyfarwyddwr Cyswllt Gwasanaethau Corfforaethol) | 55 - 60 | 0 | 0 | 55 - 60 | 0 | 0 |
| Mr G Evans (Cyfarwyddwr AD) | 75 - 80 | 0 | 0 | 50 - 55 | 0 | 0 |
| **Cyfarwyddwyr Anweithredol** | | | | | | |
| Mr DH Thomas (Cadeirydd) | 40 - 45 | 0 | 0 | 30 - 35 | 0 | 0 |
| Mr M Williams (Is-Gadeirydd) | 5 - 10 | 0 | 0 | 5 - 10 | 0 | 0 |
| Mr AJ Richards | 5 - 10 | 0 | 0 | 5 - 10 | 0 | 0 |
| Mrs C Patel | 5 - 10 | 0 | 0 | 5 - 10 | 0 | 0 |
| Cyng. MJ Hedges | 5 - 10 | 0 | 0 | 5 - 10 | 0 | 0 |
| Athro ML Jones | 10 - 15 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Mr KT Morgan | 5 - 10 | 0 | 0 | 5 - 10 | 0 | 0 |
| Mr RJ Davies | 0 | 0 | 0 | 0 | | |

Mae buddiannau mewn nwyddau'n golygu'r defnydd preifat o gar a ddarperir trwy gynllun ceir prydles yr Ymddiriedolaeth

Cynhwysai costau'r Cyfarwyddwr Cyllid ar gyfer 2003/04 gostau gweithredu dros dro Mr DC Roberts o fis Hydref 2003 ymlaen a chostau cyflog Mr R Harry, y Cyfarwyddwr Cyllid gwirioneddol, a oedd ar absenoldeb salwch tymor hir.

Mae costau cyflogau Mr N Schofield a Mr G Evans ar gyfer 2003/04 yn cyfeirio at gyflog rhan o flwyddyn yn unig, o fis Awst 2003 tan fis Mawrth 2004.

Nid oedd yr Athro ML Jones, Cyfarwyddwr Anweithredol, yn ei swydd yn ystod 2003/04.

Mewn achosion lle y daliai mwy nag un unigolyn yr un swydd yn ystod y flwyddyn, mae rhaid datgelu'r manylion yma.
Mae rhaid datgelu manylion buddiannau mewn nwyddau yma.

# 11. Asedau sefydlog diriaethol

## 11.1 Asedau sefydlog ar ddyddiad y fantolen:

| | Tir | Adeiladau ac eithrio tai | Tai | Asedau sy'n cael eu hadeiladu a thaliadau ar y cyfrif | Cyfarpar a pheiriannau | Cyfarpar cludiant | Technoleg gwybodaeth | Dodrefn & ffitiadau | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cost neu brisiad** | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** |
| Ar 1 Ebrill 2004 | 16,819 | 199,284 | 7,240 | 8,502 | 44,291 | 1,487 | 2,525 | 3,221 | **283,369** |
| Mynegrifau | 1,177 | 16,467 | 534 | 1 | 996 | 30 | 52 | 44 | **19,301** |
| Ychwanegiadau: | | | | | | | | | |
| - a brynwyd | 0 | 8,616 | 0 | 2,929 | 3,942 | 20 | 0 | 10 | **15,517** |
| - a gafwyd yn rhodd | 0 | 0 | 0 | 0 | 871 | 0 | 0 | 0 | **871** |
| - oddi wrth y Llywodraeth | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | **0** |
| Ailddosbarthiadau | 0 | 8,486 | 0 | (8,486) | 609 | 0 | (85) | (524) | **0** |
| Amhariadau | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | **0** |
| Ailbrisiadau eraill yn ystod y flwyddyn | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | **0** |
| Asedau a waredwyd | 0 | 0 | 0 | 0 | (1,167) | (265) | (586) | (985) | **(3,003)** |
| **Ar 31 Mawrth 2005** | 17,996 | 232,853 | 7,774 | 2,946 | 49,542 | 1,272 | 1,906 | 1,766 | **316,055** |
| **Dibrisiant** | | | | | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2004 | 0 | 9,945 | 405 | 0 | 29,496 | 1,210 | 2,017 | 2,079 | **45,152** |
| Mynegrifau | 0 | 788 | 32 | 0 | 669 | 24 | 41 | 19 | **1,573** |
| Ailddosbarthiadau | 0 | 0 | 0 | 0 | 609 | 0 | (85) | (524) | **0** |
| Amhariadau | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | **0** |
| Gwrthdroi amhariadau | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | **0** |
| Ailbrisiadau eraill yn y flwyddyn | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | **0** |
| Asedau a waredwyd | 0 | 0 | 0 | 0 | (1,139) | (265) | (586) | (985) | **(2,975)** |
| Darparwyd yn ystod y flwyddyn | 0 | 7,748 | 240 | 0 | 2,854 | 73 | 181 | 268 | **11,364** |
| **Ar 31 Mawrth 2005** | 0 | 18,481 | 677 | 0 | 32,489 | 1,042 | 1,568 | 857 | **55,114** |
| Gwerth llyfr net ar 1 Ebrill 2004 | 16,819 | 189,339 | 6,835 | 8,502 | 14,795 | 277 | 508 | 1,142 | **238,217** |
| **Gwerth llyfr net ar 31 Mawrth 2005** | 17,996 | 214,372 | 7,097 | 2,946 | 17,053 | 230 | 338 | 909 | **260,941** |

**Gwerth llyfr net asedau o dan brydlesi cyllid a chontractau hurbwrcas**

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfanswm** | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | **0** |

**Cyfanswm dibrisiant yn y cyfrif Incwm a Gwariant o ran asedau o dan brydlesi cyllid a chontractau hurbwrcas:**

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfanswm** | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | **0** |

O'r cyfansymiau ar 31 Mawrth 2005, roedd £0 yn ymwneud â thir a brisiwyd ar werth y farchnad agored ac roedd £0  yn ymwneud ag adeiladau, gosodiadau a ffitiadau a brisiwyd ar werth y fachnad agored.

Rhoddir y ffigurau ar gyfer tir rhydd-ddaliol ac adeiladau yn eu ffurf gros gyda dibrisiant cronnol ar wahân.

**11.2 Mae'r buddsoddiadau asedau sefydlog ar ddyddiad y fantolen a gynhwyswyd yn yr asedau sefydlog yn cynnwys:**

Nid oedd gan yr Ymddiriedolaeth unrhyw fuddsoddiadau asedau sefydlog ar ddyddiad y fantolen.

## 15.2 Benthyciadau/brocerdal

| Symiau sy'n ddyledus: | Cyfanswm £000 | 31 Mawrth 2004 £000 |
|---|---|---|
| Mewn blwyddyn neu lai na blwyddyn | **0** | 0 |
| Rhwng blwyddyn a dwy flynedd | **0** | 0 |
| Rhwng dwy flynedd a phum mlynedd | **0** | 0 |
| Mewn pum mlynedd neu fwy | **0** | 0 |
| Is-gyfanswm | **0** | 0 |
| I'w ad-dalu'n llawn o fewn pum mlynedd | **0** | 0 |
| I'w ad-dalu'n llawn ar ôl pum mlynedd, nid trwy randaliadau | **0** | 0 |
| I'w ad-dalu'n llawn neu'n rhannol ar ôl pum mlynedd trwy randaliadau | **0** | 0 |
| Is-gyfanswm | **0** | 0 |
| Cyfanswm i'w ad-dalu ar ôl pum mlynedd trwy randaliadau | **0** | 0 |

**Manylion benthyciad/brocerdâl:**

Nid oes gan yr Ymddiriedolaeth unrhym fenthyciadau'n weddill

## 15.3 Ymrwymiadau prydles cyllid

| Taladwy: | £000 | 31 Mawrth 2004 £000 |
|---|---|---|
| O fewn blwyddyn | **0** | 0 |
| Rhwng blwyddyn a phum mlynedd | **0** | 0 |
| Ar ôl pum mlynedd | **0** | 0 |
| Is-gyfanswm | **0** | 0 |
| Llai costau cyllid a ddyrennir i gyfnodau yn y dyfodol | **0** | 0 |
| **Cyfanswm** | **0** | 0 |

## 15.4 Ymrwymiadau prydles cyllid

Nid oes gan yr Ymddiriedolaeth unrhyw ymrwymiadau prydles cyllid.

## 16. Darpariaethau ar gyfer ymrwymiadau a chostau

| | Ar 1 Ebrill 2004 | Achosion setliad strwythuredig a drosgl'd i'r Gronfa Risg | Trosgl'o darpar-iaethau i gredyd'r | Darpar'thau newydd yn codi yn y flwyddyn | Wedi eu gwrthdroi heb eu defnyddio | Defn'iwyd y flwyddyn | Dad-ddirwyn gostyngiad | Ar 31 Mawrth 2005 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** |
| Esgeulustod clinigol | 5,478 | 0 | 0 | 17,647 | (1,980) | (2,058) | 0 | **19,087** |
| Anaf personol | 2,807 | 0 | 0 | 1,637 | (680) | (841) | 57 | **2,980** |
| Yr holl golledion eraill a thaliadau arbennig | 0 | 0 | 0 | 66 | 0 | (66) | 0 | **0** |
| Ffïoedd cyfreithiol yr amddiffyniad a gweinyddu arall | 3,475 | 0 | 0 | 1,192 | (2,031) | (288) | | **2,348** |
| Is-gyfanswm | 11,760 | 0 | 0 | 20,542 | (4,691) | (3,253) | 57 | **24,415** |
| Pensiynau yn ymwneud â: | | | | | | | | |
| chyn gyfarwyddwyr | 0 | | | 0 | 0 | 0 | 0 | **0** |
| staff eraill | 1,054 | | | 0 | (198) | (61) | 0 | **795** |
| Ailstrwythuro | 0 | | | 0 | 0 | 0 | | **0** |
| Eraill | 0 | | | 0 | 0 | 0 | | **0** |
| **Cyfanswm** | **12,814** | **0** | **0** | **20,542** | | | **57** | **25,210** |

**Amseriad disgwyliedig llif arian:**

| | O fewn 1 flwyddyn | Rhwng 2-5 mlynedd | Dros 5 mlynedd | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** |
| Esgeulustod clinigol | 2,015 | 17,072 | 0 | **19,087** |
| Anaf personol | 2,980 | 0 | 0 | **2,980** |
| Yr holl golledion eraill a thaliadau arbennig | 0 | 0 | 0 | **0** |
| Ffioedd cyfreithiol yr amddiffyniad a gweinyddu arall | 2,348 | 0 | 0 | **2,348** |
| Pensiynau - cyn gyfarwyddwyr | 0 | 0 | 0 | **0** |
| Pensiynau - staff arall | 61 | 224 | 510 | **795** |
| Ailstrwythuro | 0 | 0 | 0 | **0** |
| Arall | 0 | 0 | 0 | **0** |
| **Cyfanswm** | **7,404** | **17,296** | **510** | **25,210** |

Mae'r ymddiriedolaeth yn amcangyfrif y bydd yn derbyn £3,017,036 yn 2005-06, ac yn 2006-07 ac ar ôl hynny £17,061,945 oddi wrth Gronfa Risg Cymru yng nghyswllt y colledion a'r taliadau arbennig (gan gynnwys esgeulustod clinigol).

## 25. Trafodion Partïon Cysylltiedig

Mae'r Ymddiriedolaeth yn gorff corfforaethol a sefydlwyd trwy orchymyn yr Ysgrifennydd Gwladol.

Yn ystod y flwyddyn mae cyrff y mae gan aelodau o'r Bwrdd neu aelodau o'r staff rheoli allweddol neu bartïon sydd yn gysylltiedig â hwy fuddiant ynddynt wedi ymgymryd â'r trafodion canlynol gyda'r Ymddiriedolaeth.

| | Taliadau I barti cysylltiedig £ | Derbyniadau gan barti cysylltiedig £ | Symiau sy'n ddyledus I barti cysylltiedig £ | Symiau sy'n ddyledus gan barti cysylltiedig £ |
|---|---|---|---|---|
| Mr DH Thomas | 5,308,463 | 1,466,789 | 106,532 | 208,097 |
| Mr M Williams | 11,570 | 1,036 | 0 | 60 |
| Mrs C Patel | 3,808 | 303 | 0 | 0 |
| Mr AJ Richards | 1,229,116 | 0 | 0 | 0 |
| Coun M Hedges | 2,196,499 | 1,025,421 | 13,183 | 180,235 |

Mae Mr DH Thomas yn aelod o Gyngor Coleg Prifysgol Cymru ac yn Llywodraethwr ar Brifysgol Morgannwg.
Mae'r Cyfarwyddwr Anweithredol Mr M Williams yn Brif Weithredwr Grwp Tai Gwalia ac yn Llywodraethwr ar Goleg Addysg Bellach Abertawe.

Mae Mrs C Patel, Cyfarwyddwraig Anweithredol, yn cael ei chyflogi gan Athrofa Addysg Uwch Abertawe ac yn Aelod o Fwrdd Grwp Tai Gwalia Cyf.
Bu Mr AJ Richards, Cyfarwyddwr Anweithredol, yn Gyfarwyddwr Cyllid am ran o'r flwyddyn gyda Grwp Contractwyr Adeiladu Edmunds Webster.
Mae'r Cyng. M Hedges, Cyfarwyddwr Anweithredol, yn aelod o Gyngor Dinas a Sir Abertawe, yn Llywodraethwr yng Ngholeg Addysg Bellach Abertawe ac yn cael ei gyflogi gan Brifysgol Morgannwg.
Mae Ms J Perrin, y Brif Weithredwraig, yn Gadeirydd ar Gyfadran De Orllewin Cymru o'r Sefydliad Rheoli Gofal Iechyd.

Ystyrir y Cynulliad yn barti cysylltiedig. Yn ystod y flwyddyn mae'r Ymddiriedolaeth wedi cael nifer o drafodion perthnasol gyda'r Cynulliad a chydag endidau eraill y mae'r Cynulliad yn gyfrifol amdanynt, sef:

Bwrdd Iechyd Lleol Abertawe (£159,769,996), Bwrdd Iechyd Lleol Castell Nedd Port Talbot (£33,553,095) a Bwrdd Iechyd Lleol Sir Gaerfyrddin (£11,590,430).

Yn ogystal, mae'r Ymddiriedolaeth wedi cael nifer sylweddol o drafodion perthnasol gydag Adrannau Llywodraethol eraill a chyda chyrff llywodraethol canolog a lleol eraill. Bu'r rhan fwyaf o'r trafodion hyn gyda Chyngor Dinas a Sir Abertawe.

Mae'r Ymddiriedolaeth wedi derbyn refeniw a thaliadau cyfalaf hefyd oddi wrth nifer o gronfeydd elusennol, y mae rhai o'u Ymddiriedolaethwyr yn aelodau hefyd o Fwrdd yr Ymddiriedolaeth.

**DATGANIAD PRO FORMA YNGHYLCH RHEOLAETH FEWNOL**

**1. Cwmpas cyfrifoldeb**

Mae'r Bwrdd yn atebol am reolaeth fewnol. Fel Swyddog Atebol a Phrif Weithredydd y Bwrdd hwn, mae arnaf gyfrifoldeb am gynnal system reolaeth fewnol gadarn sydd yn hyrwyddo cyflawniad polisïau, nodau ac amcanion y sefydliad, tra'n diogelu'r cyllid cyhoeddus ac asedau'r sefydliad yr wyf yn bersonol gyfrifol amdanynt, yn unol â'r cyfrifoldebau a ddyrannwyd gan Swyddog Cyfrifyddol GIG Cymru.

Fel Prif Weithredydd rwyf wedi dirprwyo cyfrifoldeb am Reoli Risgiau o fewn yr Ymddiriedolaeth. Mae cyfrifoldeb am Reoli Risgiau wedi cael ei ddirprwyo i'r Cyfarwyddwr Cyswllt Gwasanaethau Corfforaethol, a gynorthwyir gan Reolwr Risg yr Ymddiriedolaeth a chan y Rheolwr Iechyd, Diogelwch a Thân. Mae'r broses Rheoli Risgiau'n elfen allweddol hefyd yn yr Uned Gynorthwyo Llywodraethedd Clinigol dan arweiniad y Cyfarwyddydd Nyrsio /, y Cyfarwyddydd Meddygol, a gynorthwyir gan y Rheolwr Llywodraethedd Clinigol. Mae Rheolwr Risg yr Ymddiriedolaeth a Chyfarwyddydd Clinigol Risg Clinigol yn ffurfio rhan o'r Uned Gynorthwyo Llywodraethedd Clinigol. Mae'r Ymddiriedolaeth yn cynhyrchu Adroddiadau Blynyddol a Chwarterol ar Reoli Risgiau.

**2. Diben y system reolaeth fewnol**

Nod y system reolaeth fewnol yw rheoli risgiau hyd lefel resymol yn hytrach na dileu pob risg o fethiant i gyflawni polisïau, nodau ac amcanion; ni all felly ond rhoi sicrwydd rhesymol, nid absoliwt, o effeithioldeb. Mae'r system reolaeth fewnol yn seiliedig ar broses barhaus ac iddi'r nod o adnabod a blaenoriaethu'r risgiau a allai atal ar gyflawniad polisïau, nodau ac amcanion y sefydliad; gwerthuso tebygolrwydd y risgiau hynny o gael eu gwireddu a'r effeithiau pes gwireddid, a'u rheoli'n effeithiol, yn effeithlon ac yn ddarbodus. Mae'r system reolaeth fewnol wedi bod mewn grym yn y sefydliad ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2005 a hyd at ddyddiad cymeradwyo'r adroddiad a'r cyfrifon blynyddol. ac mae'n cydymffurfio â chanllawiau Llywodraeth Cynulliad Cymru.

**3. Y galluedd i ddelio â risgiau**

Mae'r trefniadau ar gyfer rheoli risgiau wedi'u gosod yn Strategaeth Reoli Risg yr Ymddiriedolaeth. O fewn hon mae arweinwyr wedi'u henwi'n glir ar gyfer pob un o Safonau Rheoli Risg Cymru (WRMS). Mae pob arweinydd yn aelod o Fwrdd Gweithredol yr Ymddiriedolaeth.

Yn ogystal mae gan bob Uwchadran/ Cyfarwyddiaeth arweinydd penodol ar gyfer Rheoli Risgiau ac ar gyfer datblygu ac adrodd ynghylch ei Chofrestr Risgiau. Mae Rheoli Risg yn rhan lwyr integredig o'r broses Lywodraethedd Clingol ac yn elfen allweddol o'r Uned Gynorthwyo Llywodraethedd Clinigol, dan arweiniad y Cyfarwyddydd Meddygol/ Cyfarwyddydd Nyrsio. Er mwyn tanlinellu pwysigrwydd risgiau clinigol mae Cyfarwyddydd Clinigol ar gyfer Rheoli Risg Clinigol wedi cael ei benodi, i weithio dan gyfarwyddydd y Cyfarwyddydd Meddygol.

**4. Y fframwaith risgiau a rheoli**

Mae'r Ymddiriedolaeth wedi sefydlu Strategaeth Reoli Risgiau sydd wedi cael ei chadarnhau gan y Swyddog Cyfrifyddol a'i chymeradwyo gan Bwyllgor Rheoli Risg yr Ymddiriedolaeth. Mae'r Strategaeth yn datgan yn glir fod y sefydliad yn cefnogi diwylliant bai isel, yn annog ei staff i fod yn ddiffuant ac yn onest, ac yn egluro'r strwythur ar gyfer rheoli a pherchenogi risg ar wahanol lefelau ledled y sefydliad, ac yn cynnig cyngor ynghylch cynllunio busnes a sut bydd gweithgareddau newydd yn cael eu hasesu o ran risgiau a'u hymgorffori ar y gofrestr risgiau.

Mae gan yr Ymddiriedolaeth raglen Asesu Risgiau i adnabod risgiau; mae'r sefydliad yn dadansoddi ac yn gwerthuso'r risgiau wedyn ac yn cytuno ar raglen weithgareddau i reoli'r risgiau. Mae'r broses yn cymryd i ystyriaeth werth am arian, ansawdd y ddarpariaeth gwasanaethau, ansawdd a dibynadwyedd y dystiolaeth i gadarnhau'r risg adnabyddedig a'r effaith ar y sefydliad, y budd-ddeiliaid a'r partneriaid, ac yn bwydo hyn i mewn i'r gofrestr risgiau.

Parhawyd i ddatblygu'r Gofrestr Risgiau yn ystod 2004/2005, a chafodd ei hadolygu gan Grwp Rheoli Risg yr Ymddiriedolaeth, y Bwrdd Gweithredol a'r Pwyllgor Awdit. Sefydlwyd grwp corfforaethol i sicrhau ansawdd y Gofrestr Risgiau, ac mae'n adolygu cofrestrau risgiau'r Uwchadrannau unwaith y flwyddyn o leiaf.

Mae'r Ymddiriedolaeth yn defnyddio Cronfa Ddata Reoli Risgiau integredig i hyrwyddo'r rheolaeth ar adrodd am ddigwyddiadau, cwynion, hawliadau, y gofrestr risgiau a phrofiad y claf. Defnyddir y gronfa ddata i adnabod tueddiadau ac i fonitro'r sefyllfa unwaith y mae rheolaethau wedi cael eu rhoi mewn grym i sicrhau eu bod yn effeithiol ac i gynorthwyo i boblogi'r gofrestr risgiau.

Mae Cronfa Risgiau Cymru wedi datgan bod angen i Ymddiriedolaethau gyflawni sgôr ufuddhad gyffredinol o 75% ar y lleiaf, a dim llai na 60% yn 21 o'r 23 o safonau a asesir. Lefel ufuddhad gyffredinol yr Ymddiriedolaeth i'r WRMS ar gyfer 2004/2005 yw 70%, sydd yn ostyngiad o sgôr 2003/04 sef 75%.Digwyddodd hyn o ganlyniad i adolygiad yn ystod y flwyddyn ar y safonau eu hunain ac ar y fethodoleg sgorio a ddefnyddir i asesu perfformiad yn erbyn y safonau. Mae ufuddhad i'r safonau crai, a wiriwyd trwy awdit mewnol, wedi cynyddu fel a ganlyn:

| | 03/04 | 04/05 |
|---|---|---|
| WRMS 1 Polisi a Strategaeth Rheoli Risgiau | 66% | 75% |
| WRMS 2 Proffilio Risgiau | 59% | 77% |
| WRMS 3 Adrodd am Ddigwyddiadau | 66% | 93% |
| WRMS 37 Llywodraethedd | 82% | 88% |
| WRMS 38 Rheolaeth Ariannol | 78% | 86% |

Mae Rheoli Risgiau'n elfen anhepgor o broses fusnes y sefydliad hwn. Mae pob perygl dichonol yn cael ei asesu o ran risg, ei ddadansoddi, ei werthuso a'i flaenoriaethu a'i gynnwys ar y Cofrestrau Risgau Uwchadrannol sy'n cael eu bwydo i mewn i Gofrestr Risgiau'r Ymddiriedolaeth, ac mae'r risgiau'n cael eu cyflwyno wedyn i'r Rhaglen Gynllunio Cyfalaf a'r broses gynllunio busnes.

Mae risgiau arwyddocaol sydd y tu allan i reolaeth yr Ymddiriedolaeth yn cael eu hadroddd i'r Comisiynwyr ac i Lywodraeth Cynulliad Cymru. Er enghraifft, cafodd y Comisiynwyr a Llywodraeth Cynulliad Cymru eu hysbysu o risgiau sylweddol yr isadeiladwaith trydanol i'r Ymddiriedolaeth.

**5. Adolygiad ar Effeithioldeb**

Fel Swyddog Atebol, mae arnaf gyfrifoldeb am adolygu effeithioldeb y system reolaeth fewnol. Mae fy adolygiad ar effeithioldeb y system reolaeth fewnol yn cael ei hysbysu gan waith yr archwilwyr mewnol a'r swyddogion gweithredol yn y sefydliad sy'n gyfrifol am ddatblygu a chynnal y fframwaith rheolaeth fewnol, a sylwadau a wnaed gan yr archwilwyr allanol yn eu llythyr rheolaeth ac adroddiadau eraill. Fe'm cynghorwyd ar oblygiadau fy adolygiad ar gyfer effeithioldeb y system reolaeth fewnol gan y Bwrdd, y Pwyllgor Awdit (a'r Grwp Risgiau os yn briodol) ac mae cynllun i fynd i'r afael â gwendidau a sicrhau gwelliant parhaus yn y system mewn grym.

Mae'r Pwyllgor Awdit yn goruchwylio llu o fecanweithiau rheoli mewnol, ac yn derbyn yr holl adroddiadau archwilio mewnol ac allanol.

Mae'r awdit mewnol yn paratoi adroddiad blynyddol ar Ufuddhad i'r trefniadau llywodraethedd a chydymffurfiad â'r WRMS. Mae hyn yn cynnwys cynllun gweithredu i wella perfformiad. Ystyrir yr adroddiadau hyn gan y Pwyllgor Awdit sydd hefyd yn monitro cynnydd yn erbyn y cynllun gweithredu.

Mae'r Grwp Rheoli Risgiau hefyd yn adolygu cynnydd yn erbyn WRMS a datblygiad y Gofrestr Risgiau. Yn ogystal mae'r archwilwyr allanol yn cynhyrchu llythyr rheolaeth blynyddol. Ystyrir y rhain gan y Pwyllgor Awdit. Mae'r Pwyllgorau Awdit a Rheoli Risgiau'n adrodd ill dau i Fwrdd yr Ymddiriedolaeth.

Yn ystod 2004/05 parhaodd yr Ymddiriedolaeth i weithio at hyrwyddo cyflawniad 2il flwyddyn Cynllun Gweithredu Llywodraethedd Clinigol tair blynedd 2003 - 2006. Monitrir y cynllun datblygu gan y Pwyllgor Llywodraethedd Clinigol, sydd yn bwyllgor dirprwyedig o Fwrdd yr Ymddiriedolaeth a yrrir ymlaen gan y Llywgor Llywodraethedd Clinigol. Mae'r cynllun datblygu'n cael ei ddiweddaru bob 6 mis a'i gyflwyno i'r Swyddfa Ranbarthol a'r Uned Ddatblygu Llywodraethedd Clinigol yn Llywodraeth y Cynulliad. Darperir adroddiad eithriad blynyddol ar gyfer y Pwyllgor Llywodraethedd Clinigol a'r Swyddfa Ranbarthol.

Llofnod:……………………………………… Dyddiad:………………
Prif Weithredydd
(ar ran y Bwrdd)

